



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Gwasanaeth
Gwybodeg
Informatics
Service

ALLECH CHI FOD YN RHAN O WEITHLU GWYBODEG IECHYD Y DYFODOL?

OES GENNYCH CHI'R HYN SYDD EI ANGEN I SEFYLL A CHAEL EICH ADNABOD YM MAES IECHYD A GOFAL DIGIDOL YNG NGHYMRU?

Gallech helpu i achub bywydau wrth gefnogi systemau a gwasanaethau'r GIG, wrth ennill cymhwyster cydnabyddedig yn y sector gwybodeg iechyd. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) yn cefnogi tair prentisiaeth llawn amser wedi'u lleoli yn swyddfeydd NWIS yng Nghaerdydd i ddod â chyfleoedd gyrfa cyffrous i chi yn y meysydd canlynol:

Tîm Y DDESG WASANAETH (DWY BRENTISIAETH)

Byddwch yn darparu cymorth rheng flaen i ddefnyddwyr gwasanaeth i safonau cydymffurfio'r Llyfrgell Gwybodaeth TG. Bydd hyn yn cynnwys bod yn bwynt cyswllt cyntaf i ddefnyddwyr ar gyfer datrys digwyddiadau; cofnodi galwadau a cheisiadau a helpu i ddod o hyd i ddatrysiadau. Bydd y rôl yn cynnwys defnyddio technolegau amrywiol i gymhwyso atebion rheng flaen a byddwch yn gweithio'n agos gyda thimau a chyflenwyr eraill i wella gwasanaethau ar draws GIG Cymru. Ochr yn ochr â gweithio gyda'r tîm hwn, byddwn yn ymgymryd â Phrentisiaeth Gradd Uwch mewn Seiberddiogelwch ym Mhrifysgol Abertawe yn dechrau ym mis Ionawr 2021.

Tîm CYNHYRCHION COFNOD SENGL (UN BRENTISIAETH)

Byddwch yn cynorthwyo'r tîm profi yn rhagweithiol i sicrhau bod y feddalwedd ar gyfer y Cynnyrch Cofnod Senogl yn addas at y diben ac yn cyflawni'r meini prawf gofynnol. Byddwch yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod meddalwedd a ryddhawyd i'w defnyddio ar draws GIG Cymru yn gweithio fel y bwriadwyd a byddwch yn ennill arbenigedd yn y technegau a'r strategaethau a ddefnyddir wrth brofi cymwysiadau symudol ar y we. I gefnogi eich gwaith gyda'r tîm hwn, byddwch yn ymgymryd â Phrentisiaeth Gradd Uwch hefyd mewn Datblygu Meddalwedd ym Mhrifysgol Abertawe yn dechrau ym mis Ionawr 2021.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i ymuno â rhaglen arloesol wrth ennill cyflog (Cyflog band 3 £19,737) Bydd gennych fynediad at gwrs gradd uwch sydd wedi'i ddewis yn arbennig ar gyfer y rôl ac fe'ch cefnogir gan fentoriaid a rheolwyr profiadol trwy gydol eich prentisiaeth. Fel prentis sy'n gweithio mewn sector sy'n tyfu'n gyflym, byddwch yn ennill ac yn datblygu'ch sgiliau ac yn dod yn weithiwr gwybodeg iechyd proffesiynol y dyfodol.

I wneud cais, anfonwch CV a llythyr eglurhaol yn dweud wrthym pam eich bod yn berffaith ar gyfer y rol brentisiaeth at NWIS-wfod.shared@wales.nhs.uk

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Llun 31 Awst 2020 am 5pm.

Rydym yn awyddus i ddenu sbectrwm eang o ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol. Os oes gennych chi'r ddawn, cymhelliad ac agwedd gywir, rydym am glywed gennych chi. Nodwch pa brentisiaeth yr hoffech wneud cais amdani a sicrhewch fod eich llythyr eglurhaol yn fanwl ac yn benodol i'r ffordd rydych chi'n cwrdd â gofynion y rôl.



Mae croeso i ymgeiswyr sydd angen Tystysgrif Nawdd Haen 2 (Cyffredinol) ymgeisio a chânt eu hystyried ond byddant yn amodol ar fodloni'r prawf marchnad lafur breswyl, oni bai bod eithriad yn berthnasol. Mae angen cydymffurfio â'r holl ganllawiau eraill a osodwyd gan Fisâu a Mewnffudo y DU (UKVI) hefyd. Ewch i wefan UKVI am ragor o wybodaeth. Os yw'ch cyflogaeth lwyddiannus yn amodol ar Hawli i Weithio am Amser Cyfyngedig, yna bydd deiliadaeth ein contract cyflogaeth yn gyfyngedig i adlewyrchu hyn.

EIN NOD YW DENU A DATBLYGU'R BOBL FEDRUS SYDD EU HANGEN I ADEILADU
A CHYNNAL SYSTEMAU TG CENEDLAETHOL A GWASANAETHAU DIGIDOL.